OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 1877 (Cy.186)

CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002

Wedi'i wneud	- -	*18 Gorffennaf 2002*
Yn dod i rym	- -	*1 Awst 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 59, 61(1), 65, 69, 71, 73(3), 74, 77(4), 78, 79(4), 188, 193, 196(4) a 333(7) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a pharagraffau 5, 6, 7(6) ac 8(6) o Atodlen 1 iddi(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002 ac mae'n dod i rym ar 1 Awst 2002.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "Gorchymyn 1995" yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995(**3**) ac mae unrhyw gyfeiriad at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yng Ngorchymyn 1995.

Diwygio Gorchymyn 1995

3. Mewnosodwch yng Ngorchymyn 1995, ar ôl erthygl 5—

"**Declaration to accompany application to a local planning authority in Wales for planning permission for certain telecommunications developments.**

5A.—(1) This article applies to any application for planning permission which:

(**1**) 1990 p.8.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 59, 61(1), 65, 69, 71, 73(3), 74, 77(4), 78, 79(4), 188, 193, 196(4) a 333(7), a pharagraffau 5, 6, 7(6) ac 8(6) o Atodlen 1 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S.1999/672 ac Atodlen 1 iddo.

(**3**) O.S.1995/419.